OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 755

## Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013

**Dileu pwyllgorau ymgynghorol**

**9.**—(1) Mae'r canlynol wedi eu dileu—

(a) Pwyllgor Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd a sefydlwyd yn unol ag adran 12(6) o Ddeddf 1995;

(b) y pwyllgor ymgynghorol pysgodfeydd rhanbarthol a lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 13(5) o Ddeddf 1995.

(2) Gan hynny, mae'r darpariaethau a ganlyn yn Neddf 1995 wedi eu diddymu—

(a) adran 12(**1**);

(b) adran 13(**2**);

(c) Atodlen 3;

(d) paragraff 3 o Atodlen 23.

(**1**) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 12 o Ddeddf 1995 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Gwarchod yr Amgylchedd) 2012 (O.S. 2012/2407).

(**2**) Cafodd y pwyllgorau eraill a sefydlwyd o dan adran 13 eu dileu gan Orchymyn Cyrff Cyhoeddus (Dileu Pwyllgorau Ymgynghorol Pysgodfeydd Rhanbarthol a Lleol) 2012 (O.S. 2012/2406).